

2022 Rhif (Cy. )

2022 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y  
Strand, Llanfair-ym-Muallt, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2022

The A483 Trunk Road (The Strand,  
Builth Wells, Powys) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2022

*Gwnaed* 14 Mehefin 2022

*Made* 14 June 2022

*Yn dod i rym* 24 Mehefin 2022

*Coming into force* 24 June 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi a chychwyn

### Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Strand, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mehefin 2022.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (The Strand, Builth Wells, Powys) (Temporary Prohibitions of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 24 June 2022.

### Dehongli

### Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 24 Mehefin 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Y Strand sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Gogledd hyd at bwynt 5 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street yn Llanfair-ym-Muallt yn Sir Powys.

### **Cymhwys**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Mehefin 2022

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 24 June 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as The Strand that extends from a point 5 metres east of the centre-point of its junction with North Road to a point 5 metres west of the centre-point of its junction with Strand Street at Builtth Wells in the County of Powys.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

14 June 2022

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government